

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn  
**Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 12 Chwefror 2018 am 7:30p.m.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Ian Lewney ac Anne Roberts.

**54. RHUTHUN – TREF FARCHNAD Y DYFODOL - DIWEDDARU'R CYNLLUN**

Roedd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu hefyd yn bresennol i glywed am y datblygiadau diweddaraf o ran diweddarau'r cynllun uchod. Amlinellodd y Cyngorydd Gavin Harris y gwaith a gyflawnwyd yn 2012 i lunio'r fersiwn gyntaf, a'r cynnig i adolygu'r cynllun a'i ddiweddarau gyda gweledigaeth gydlynus ar gyfer prosiectau a datblygiadau yn Rhuthun yn y dyfodol. Roedd wedi trafod hyn gydag Adran Rheoli Asedau a Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ddinbych, gyda'r ddau yn barod i gyfrannu £500 tuag at gostau'r cam nesaf, ac roedd yn obeithiol y byddai'r Adran Gynllunio yn cyfrannu tuag at y ddiweddariad cynllun hefyd. Esboniodd bod Grŵp Twristiaeth Bro Rhuthun yn aildechrau a byddai'n fodlon rhoi arian o'u cronfa, ynghyd â'r Manorhaus. Roedd awdur y cynllun gwreiddiol, Dr. Matthew Jones, wedi darparu Adroddiad Sgôp a Chynnig y Prosiect ar gyfer diweddarau'r cynllun, am gyfanswm o £2,350 a gofynnodd y Cyngorydd Harris i'r aelodau ystyried cyfraniad o £1,000 gan y Cyngor Tref. Cynigiwyd hyn gan y Cyngorydd Anne Roberts a'i eilio gan y Cyngorydd Robert Owen-Ellis a chytunwyd yn unfrydol.

**PENDERFYNWYD:** bod Cyngor Tref Rhuthun yn cyfrannu £1,000 tuag at gost diweddarau'r Cynllun Rhuthun – Tref Farchnad y Dyfodol.

**55. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Dave Snape ac Emrys Wynne.

**56. DATGAN BUDDIANNAU**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**57. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** cadarnhau bod y cofnodion a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2018 yn gywir.

**58. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**59. DIWEDDARIAD YNGHYLCH CYNNAL A CHADW'R GOFEB RHYFEL**

Adroddodd y Cyngorydd Anne Roberts ei bod wedi cyfarfod gyda Phennaeth Ysgol Brynhyfryd, ond nad oeddynt yn teimlo ei fod yn brosiect addas i'r disgyblion. Hysbysodd y Clerc ei bod wedi gofyn am dri phris i lanhau'r gofeb ac ailbaentio'r llythrennau, a phris am dynnu'r paent ac ailbaentio'r rheiliau ac ailosod y cerrig llawr sy'n rhydd.

**PENDERFYNWYD:** aros am y dyfynbrisiau a thrafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf.

**60. RHAGLEN I GYNNAL A CHADW'R SEDDI CYHOEDDUS**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried rhaglen i gynnal a chadw'r seddi cyhoeddus, ac awgrymodd y Cyngorydd Gavin Harris y dylai hyn fod yn rhan o ddiweddarau'r cynllun Rhuthun – Tref Farchnad y Dyfodol. Awgrymwyd y byddai'n ddoeth adolygu'r biniau baw ci/sbwriel yr un pryd.

**PENDERFYNWYD:** ymdrin â hyn fel rhan o ddiweddariad y cynllun Rhuthun – Tref Farchnad y Dyfodol a threfnu cyfarfod gyda Mr Simon Billington, Rheolwr Priffyrdd a Strydlun De Sir Ddinbych, i drafod y biniau, y seddi cyhoeddus ac ati.

**61. YMGYRCH CASGLU SBWRIEL O AMGYLCH Y DREF**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dyddiad ar gyfer yr ymgyrch flynyddol. Dywedodd y Clerc bod hyn yn digwydd yn draddodiadol ar y dydd Sadwrn cyn y Pasg, a fyddai'n golygu 24 Mawrth eleni. Roedd y dyddiad yn gyfleus Gareth Jones, Cadw Cymru'n Daclus. Awgrymwyd gofyn i Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Rhuthun drefnu bod rhai o'u disgyblion yn codi'r sbwriel yng nghyffiniau eu hysgol.

**PENDERFYNWYD:** cynnal yr ymgyrch fore Sadwrn, 24 Mawrth, a chysylltu'r gyda'r ddwy ysgol

*uwchradd, Clwb Rotari Rhuthun a'r Free Press.*

**62. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 19 Mawrth 2018 am 7:30pm.*